Date · Dyddiad 15 Gorffenaf 2019
Your ref · Eich cyfeirnod
My ref · Fy nghyfeirnod
Telephone · Ffôn 01437 775202
Email · Ebost music@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshire.gov.uk
www.sir-benfro.gov.uk

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

IAN WESTLEY, M.A. B.Eng.(Hons), C.Eng., M.I.Mech.E., M.C.I.B.S.E.
Chief Executive / Prif Weithredwr

KATE EVAN-HUGHES
Director for Children & Schools
Cyfarwyddwr Dros Blant Ac Ysgolion

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

Cais am Daliad Aelodaeth Sirol

Annwyl Riant / Gofalwr,

Hoffem wahodd eich plentyn i fynychu / barhau i fod yn aelod o Ensembles Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro yn 2019/2020. Bydd ymarferion yn cychwyn ar ddydd Gwener 13 Medi 2019 mewn lleoliad newydd, sef **Ysgol Caer Elen** (Withybush Road, Hwlffordd, SA62 4BN). Ewch i brif dderbynfa'r ysgol, lle bydd ein staff wrth law i gwrdd â chi. Cynhelir yr ymarferion rhwng 4.30pm a 6pm.

Bydd yr holl drefniadau cludiant presennol yn aros fel ag y maent ledled y sir, gyda bws ychwanegol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlffordd a Choleg Penfro. Bydd y bws yn gadael Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlffordd (safle Portfield) am 3-30pm (bydd y gwasanaeth bws hwn yn cael ei adolygu bob tymor er mwyn nodi'r galw).

Fel rydych yn gwybod, rhaid i'r awdurdod rannu peth o gostau Ensembles Cerddoriaeth y Sir gyda rhieni. Y gost yw £35 ar gyfer tymor yr hydref a £35 ar gyfer tymor y gwanwyn, sy'n cyfateb i ychydig dros £3 y sesiwn ymarfer i bob myfyriwr.

I sicrhau bod y Gwasanaeth Cerdd yn gallu parhau i gynnig y ddarpariaeth hanfodol hon, gofynnwn fod pob taliad ensemble yn cael ei wneud o flaen llaw, heb fod yn hwyrach na dydd **Gwener 27 Medi 2019.**

Yn ogystal, byddem yn ddiolchgar petaech yn llenwi'r ffurflen 'Cyfrinachedd Myfyriwr' atodedig a'i dychwelyd erbyn dydd Gwener 27 Medi 2019, un ai trwy neges e-bost at angela.white@pembrokeshire.gov.uk neu drwy'r post at Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro, Plant ac Ysgolion, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP.

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.

Dulliau talu:

Ar-lein: Trwy '*MyAccount*' (www.pembrokeshire.gov.uk/music-service).
Siec: Yn daladwy i 'Cyngor Sir Penfro' i'r cyfeiriad post uchod.
Cerdyn debyd: Dros y ffôn 01437 775202.
Arian parod: Ewch i dderbynfa Adain y Gogledd, Neuadd y Sir.

Ni fydd yn rhaid i ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim dalu, a bydd gostyngiad o 50% i deuluoedd sydd â mwy nag un plentyn yn cymryd rhan ar gyfer yr ail a'r trydydd disgybl. Os ydych chi'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, gwnewch yn siŵr eich bod yn ticio'r blwch cywir ar y ffurflen atodedig. Anfonir derbyniadau ar gais yn unig.

Os nad ydych yn talu erbyn dydd Gwener 27 Medi 2019, mae posibilrwydd na fydd eich plentyn yn cael bod yn rhan o ensembles Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro tan i ni dderbyn eich taliad llawn.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am yr uchod, cysylltwch ag Angela White ar 01437 775202. Byddwn yn trin pob ymateb yn gyfrinachol**.**

Diolch yn fawr am gefnogi Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro.

Yn gywir,

Ben Field
Rheolwr Gwasanaeth Cerdd a Chwaraeon

Dilynwch ni ar Trydar
Hoffwch ni ar Facebook
Ymweld â ni ar-lein

Pembrokeshire Music Service
Gwasanaeth Cerdd Sir Benfro

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.